Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 Rhif 106 (Cy. 37)

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 ("y prif Reoliadau"). Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 31 o'r prif Reoliadau o ganlyniad i ddiddymu adran 15(1)(b) o Ddeddf Deintyddion 1984. Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod deintyddion sy'n dal diploma Ewropeaidd priodol yn parhau i fod yn esempt rhag y gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant sylfaen cyn eu bod yn gymwys i'w cynnwys ar Restr Cyflawnwyr Deintyddol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2022 Rhif 106 (Cy. 37)

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022

Gwnaed	*4 Chwefror 2022*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*8 Chwefror 2022*
Yn dod i rym	*7 Mawrth 2022*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 63(3) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 a deuant i rym ar 7 Mawrth 2022.

Diwygio rheoliad 31(5)(a) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004

2. Yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004(**2**), yn rheoliad

(**1**) 2006 p. 42; *gweler* adran 206(1) am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".
(**2**) O.S. 2004/1020 (Cy. 117). Mewnosodwyd rheoliad 31 gan O.S. 2006/945 (Cy. 94) ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2011/1043 ac O.S. 2016/101 (Cy. 49).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

31(5)(a) (seiliau ychwanegol dros wrthod), yn lle'r geiriau o "section 15(1)(b) of the Dentists Act (registration of nationals of member States who hold appropriate European diplomas)" hyd at y diwedd rhodder "section 15(1)(c)(**1**) of the Dentists Act (any person who holds a recognised overseas diploma) within the meaning given in section 15(2) and (2ZA) of that Act".

Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
4 Chwefror 2022

(**1**) 1984 p. 24. Diddymwyd adran 15(1)(b) gan O.S 2019/593 gyda darpariaethau arbed a wnaed yn Rhan 2 o Atodlen 3. *Gweler* rheoliad 28 o O.S. 2004/1020 (Cy. 117) am y diffiniad o "Dentists Act".